**CYNGOR**

**(*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 26 Chwefror 2020**

| | |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Councillor S.Jones** |
| **Y Dirprwy Faer** | **Councillor J.Warman** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, S.Bamsey, C.Clement-Williams, M.Crowley, S.apDafydd, A.P.H.Davies, N.J.E.Davies, O.S.Davies, R.Davies, C.Edwards, J.Evans, C.Galsworthy, W.F.Griffiths, J.Hale, S.Harris, M.Harvey, N.T.Hunt, S.K.Hunt, J.Hurley, C.James, C.J.Jones, D.Jones, J.Jones, L.Jones, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, A.R.Lockyer, A.McGrath, J.Miller, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, S.M.Penry, M.Protheroe, S.Pursey, P.A.Rees, S.H.Reynolds, A.J.Richards, P.D.Richards, M.Spooner, R.L.Taylor, D.Whitelock, C.Williams, A.Wingrave, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Phillips, A.Evans, A.Jarrett, C.Griffiths, S.Brennan, C.Furlow-Harris and A.Manchipp |
| **Cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cyfieithu:** | Cyflwyno |

---

1. **CYHOEDDIADAU'R MAER.**

Croesawodd y Maer y Cynghorydd Mike Harvey yn ôl i'r Cyngor ar ôl ei brofedigaeth ddiweddar.

Yn dilyn y difrod a'r llifogydd a achoswyd yn ddiweddar gan Storm Dennis, diolchodd Aelodau'r Cyngor i staff yr awdurdod a staff asiantaethau partner am eu gwaith caled i leihau'r tarfu a'r difrod. Mynegodd yr aelodau bryder hefyd ynghylch y bobl hynny yr oedd y storm wedi effeithio arnynt.

## 2. DATGANIADAU O FUDD

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiadau o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

Y Cynghorydd M Harvey Parthed Eitem 3 ar yr Agenda - cyflwyniad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl gan ei fod yn cael ei gyflogi gan Heddlu De Cymru, a chadarnhaodd fod ganddo hawl i siarad a phleidleisio arno.

Y Cynghorydd J Miller Parthed Eitem 3 ar yr Agenda – cyflwyniad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl gan ei fod yn aelod o Banel Gorllewin y Cynllun Ymweld â'r Ddalfa a chadarnhaodd fod ganddo hawl i siarad a phleidleisio arno.

## 3. DERBYN CYFLWYNIADAU GAN Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU A PHRIF GWNSTABL HEDDLU DE CYMRU

Croesawodd y Maer Alun Michael, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Matt Jukes, y Prif Gwnstabl a Gareth Morgan, yr Uwch-arolygydd i'r cyfarfod blynyddol â'r cyngor.

Derbyniodd yr Aelodau gyflwyniad gan Mr Michael ar ehangu plismona yn y gymdogaeth i dargedu ymyrryd yn gynnar ac atal. Byddai swyddogion ychwanegol yn cael eu recriwtio yn dilyn y cyhoeddiad diweddar, gan y prif weinidog, am adnoddau ychwanegol. Fodd bynnag, nodwyd na fyddai hyn yn digwydd ar unwaith gan y byddai'n cymryd amser i hyfforddi'r swyddogion heddlu newydd. Ni fyddai unrhyw adnoddau ychwanegol i dalu am bensiynau etc., a chytunwyd ar gynnydd o 5.9% yn eu praesept.

Mewn perthynas â VAWSVDA, roedd staff meddygon teulu wedi'u hyfforddi i nodi tystiolaeth o drais domestig etc., ac o ganlyniad roedd nifer yr achosion wedi cynyddu. Nodwyd bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi darparu arian ychwanegol i dalu am hyn am gyfnod cychwynnol o chwe mis ac y byddai'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am y costau wedi hynny.

Dosbarthwyd taflen i aelodau yn ystod y cyfarfod a oedd yn hyrwyddo'r prosiect DRIVE sy'n dangos 'ymagwedd flaengar at gyflawnwyr cam-drin domestig difrifol', a fyddai'n cael ei gyflwyno ledled y rhanbarth. Hefyd, dosbarthwyd dyfyniad o *The Times,* wedi'i ddyddio 16 Medi 2019, yn canmol y gwaith yn ne Cymru hefyd.

Yna, anerchodd y Prif Gwnstabl y cyngor a dywedodd fod perthynas gadarnhaol iawn rhwng yr heddlu a'r awdurdod, yn enwedig y tîm diogelwch cymunedol, y cyfarwyddwyr corfforaethol ac aelod y cabinet. Dywedodd fod trosiant uchel o swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gan eu bod wedyn yn dod yn swyddogion yr heddlu.

Nodwyd nad oedd 8 o bob 10 galwad a dderbyniwyd gan yr heddlu yn ymwneud â throseddu ac y gallent fod yn ymwneud ag unrhyw beth, o faterion gofal cymdeithasol i faterion iechyd meddwl. Roedd nyrsys seiciatrig cymunedol bellach wedi'u lleoli yn yr ystafell reoli er mwyn ceisio lleihau nifer yr achosion gwarchodaeth.

Gweithiodd Cymorth i Ferched Cymru gyda'r heddlu hefyd ynghylch materion VAWSVDA ac roedd yn braf nodi mai Heddlu De Cymru oedd â'r gyfradd ganlyniadau orau o ran erlyn troseddwyr.

Mewn perthynas â throseddau cyllell a Llinellau Sirol dyrannwyd llawer o adnoddau i fynd i'r afael â'r materion hyn gan fod y trais mwyaf difrifol yn gysylltiedig â chyffuriau. Mynegwyd pryder bod Abertawe’n ail yn y tabl sy'n ymwneud â marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau, gyda Chastell-nedd Port Talbot yn 3ydd. Fodd bynnag, roedd nifer y troseddau, megis lladradau, yn lleihau.

Yn dilyn y cyflwyniadau cododd yr aelodau'r materion canlynol:

- Codwyd gwaith y Grŵp Digwyddiadau Tyngedfennol (GDT) mewn perthynas â Llinellau Sirol a'r strategaeth blismona ehangach. Nododd yr Aelodau fod gwaith y Rhaglen Ymyrraeth Gyffuriau bellach yn cynnwys alcohol a'i bod wedi'i hehangu i gynnwys y rheini mewn carchardai ac ar ôl eu rhyddhau. Cafodd y GDT ei raddio'n ail yn nhabl y gynghrair. Byddai tri phrif faes yn cael eu targedu – cyflenwad, galw a gorfodi. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i darfu ar y gadwyn gyflenwi, gan gynnwys defnyddio pobl ddiamddiffyn i'w helpu i'w dosbarthu.
- Gofynnodd yr Aelodau sut y byddai'r Uned Lleihau Troseddau Treisgar a sefydlwyd yn ddiweddar yn effeithio ar droseddau

difrifol iawn a throseddau treisgar. Ailddatganodd Mr Michael ei ymrwymiad i ymdrin â'r rhain a sefydlwyd strategaeth ar y cyd. Roedd angen i wasanaethau meddygon teulu, ysbytai ac ysgolion allu nodi risg bosib ac adrodd ar hyn.

- Gofynnodd yr Aelodau beth oedd yn cael ei wneud i liniaru'r cynnydd mewn seiber-droseddu a throseddau sy'n cael eu galluogi gan systemau seiber, a nododd fod adnoddau ychwanegol wedi'u darparu gan yr heddlu, ond gallai hyn fod yn anodd gan fod rhai o'r tramgwyddwyr dramor. Bydd angen i unrhyw Strategaeth Cynhwysiad Digidol gynnwys elfen ddiogelwch ar gyfer pob grŵp oedran. Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda phrifysgolion i nodi'r datblygiadau sy'n cael eu gwneud yn y maes digidol a rhoddwyd Swyddogion Diogelu Ariannol ar waith. Cytunwyd y dylid rhoi pwysau ar ddarparwyr gwasanaethau i roi mesurau ar waith i leihau'r posibilrwydd o seiberfwlio a throseddau sy'n cael eu galluogi gan systemau seiber. Dylid annog defnyddwyr i gyrchu’r gwasanaeth *Get Safe Online*.
- Gofynnodd yr Aelodau sut y byddai adnoddau'r heddlu'n newid dros y 12-18 mis nesaf, yng ngoleuni cyhoeddiad diweddar y Llywodraeth y byddai adnoddau'r heddlu'n cynyddu'n sylweddol. Mewn ymateb, nodwyd bod angen swyddogion ar yr heddlu a oedd yn barod yn weithredol ac yn cael effaith gadarnhaol ar amrywiaeth o fewn yr heddlu. Byddai'r dyraniad cyntaf o 136 o swyddogion ym mis Mawrth 2021. Nodwyd bod gan yr heddlu 4 prif faes sydd dan bwysau:

  Swyddogion yr Heddlu
  Swyddogion nad ydynt wedi'u gwarantu e.e. Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu
  Swyddogion cefn
  Cerbydau ac adeiladau

  ac mai’r maes cyntaf yn unig oedd yn cael sylw gan fod yr adnoddau ychwanegol wedi'u clustnodi. Y gobaith oedd y byddai'r llywodraeth yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o wariant i fynd i'r afael â pheth o'r pwysau.
- Codwyd materion yn ymwneud â Brexit a gallu'r heddlu i gynnal cydbwysedd priodol rhwng mynd i'r afael ag unrhyw densiynau cymunedol sy'n deillio o hynny a galwadau eraill. Rhoddwyd sicrwydd y byddai plismona yn y gymdogaeth yn parhau ac y byddai'r cynnydd mewn eithafiaeth adain dde yn cael ei dargedu.

- Gan mai atal troseddu oedd y dewis rhatach, gofynnwyd i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a fyddai'n ystyried cyfrannu at uwchraddio a chynnal adnoddau teledu cylch cyfyng yr awdurdod? Nodwyd bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi cytuno i wneud hyn yng ngogledd Cymru. Mewn ymateb, dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ei fod yn edrych ar ffyrdd o gydweithio wrth symud ymlaen.
- Ceisiwyd sicrwydd y byddai pob ethnigrwydd yn derbyn yr un gwasanaeth gan yr heddlu. Yn benodol, trafodwyd y digwyddiad diweddar yn Rhondda Cynon Taf a nododd yr Aelodau fod Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cynnal ymchwiliad cynhwysfawr i amgylchiadau'r achos.
- Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch yr effaith y byddai ymdrin â phethau megis ecsbloetio plant yn ei chael ar swyddogion yr heddlu a'r rhai sy'n ymdrin â galwadau ac fe'u sicrhawyd fod mesurau ar waith i gefnogi staff.
- Mynegwyd pryder ynghylch y gostyngiad yn nifer yr unedau heddlu symudol sy'n patrolio'r traffyrdd. Dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu y byddai angen edrych ar adnoddau, gan eu bod yn swyddi arbenigol iawn.
- Gofynnodd yr Aelodau am adborth ar gyflwyno'r rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd yng Nghastell-nedd Port Talbot a nodwyd bod hon yn fenter ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddeall goblygiadau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Cyflwynwyd cynllun peilot ym Maesteg gyda chanlyniadau cadarnhaol.

Yna diolchodd y Maer iddynt am eu presenoldeb yng nghyfarfod heddiw a gwnaethant adael y cyfarfod.

## 4. DERBYN DATGANIAD GAN AELOD Y CABINET DROS DDIOGELWCH CYMUNEDOL A DIOGELU'R CYHOEDD AR YR ISAFBRIS UNED AM ALCOHOL

**PENDERFYNWYD:** Nodi'r datganiad a wnaed gan aelod y cabinet dros Ddiogelwch Cymunedol a Diogelu'r Cyhoedd ar isafbris uned am alcohol.

## 5. EITEMAU BRYS

Oherwydd yr angen i ymdrin yn awr â'r materion a gynhwysir yng Nghofnodion 7 ac 8 isod, cytunodd y Maer y gellid eu trafod yng

nghyfarfod heddiw fel eitemau brys yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Rheswm:**

Oherwydd yr elfen amser.

6. **STORM DENNIS**

Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Strydlun a Pheirianneg ddatganiad mewn perthynas â'r difrod a achoswyd gan Storm Dennis.

Diolchodd eto i staff yr awdurdod, asiantaethau eraill a'r gwasanaethau brys am eu hymdrechion. Nododd y cyngor fanylion y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i gynorthwyo'r rhai yr effeithiwyd arnynt ynghyd â gwaith i ddod o hyd i ffordd ymlaen, gydag asiantaethau eraill, er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o hyn yn digwydd eto yn y dyfodol.

Nodwyd mai oddeutu £500k oedd cost y gwaith glanhau hyd yma, ac nid oedd gwaith atgyweirio i'r isadeileddau yr effeithiwyd arnynt wedi'i fesur eto. Yn dilyn cyhoeddiadau Prif Weinidog Llywodraeth Cymru, rhoddwyd ymagweddau ar waith i sicrhau cyllid i dalu costau'r gwaith brys.

7. **Newidiadau i Aelodaeth y Pwyllgor Personél**

**PENDERFYNWYD:** Am y rhesymau a amlinellwyd ar lafar yn y cyfarfod, bydd y Cynghorydd D Cawsey yn cymryd lle'r Cynghorydd S Paddison ar y Pwyllgor Personél a chaiff y Cynghorydd D Cawsey ei benodi'n Is-gadeirydd.

**CHAIRPERSON**